
PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 07-06-21

Presenoldeb:

Cynghorwyr: Steve Collings, Annwen Hughes, Elin W Jones, Gareth Morris Jones, Eryl Jones-Williams, Dafydd Owen, Edgar Owen, Roy Owen, Angela Russell, Elfed Williams a Gareth Williams

Swyddogion:

Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol – Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2021/22

PENDERFYNWYD ETHOL Y CYNGHORYDD ANNWEN HUGHES YN GADEIRYDD AR GYFER 2021/22

Diolchwyd i'r Cynghorydd Elfed Williams am ei waith fel Cadeirydd y Pwyllgor dros y ddwy flynedd diwethaf a hefyd am ei gefnogaeth i'r Is-bwyllgorau Trwyddedu.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2021/22

PENDERFYNWYD ETHOL Y CYNGHORYDD EDGAR OWEN YN IS-GADEIRYDD AR GYFER 2021/22

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd John Brynmor Hughes a'r Cynghorydd Jason W Parry

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. MATERION BRYD

- Cymerwyd y cyfle i ddiolch yn swyddogol am y gwaith da mae'r swyddogion Profi, Orlhain a Diogelu yn ei wneud
- Tynnwyd sylw at sedd Aelod Unigol sydd wedi bod yn wag ers tro bellach ar restr Aelodaeth y Pwyllgor. Awgrymwyd i'r mater gael ei gyfeirio at y Grŵp Busnes

6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd Mawrth 15fed 2021 fel rhai cywir

7. COFNODION IS BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

Derbyniwyd, er gwybodaeth gofnodion yr Is bwyllgorau a gynhaliwyd 23 Chwefror a 27 Ebrill 2021

8. CYMERADWYAETH I GYCHWYN YMGYNGHORIAD STATUDOL AR DDATGANIAD O BOLISI DRAFFT - DEDDF TRWYDDEDU 2003

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Trwyddedu yn amlygu'r angen i ddechrau ymgynghoriad statudol ar ddatganiad o bolisi drafft Deddf Trwyddedu 2003. Atgoffwyd yr Aelodau bod gofyn statudol i bob Awdurdod Trwyddedu adolygu ei bolisi bob pum mlynedd a'i newid fel yr angen. Ategwyd bod polisi presennol Awdurdod Trwyddedu Cyngor Gwynedd wedi ei gymeradwyo yn y Cyngor Llawn Rhagfyr 2015.

Cyfeiriwyd at y polisi drafft newydd gan dynnu sylw at y man newidiadau sydd i'r polisi presennol. Cyfeiriwyd hefyd at rôl lechyd Cyhoeddus Cymru a'r Bwrdd lechyd yn y broses o lunio polisi ac ymateb i geisiadau am drwydded eiddo.

Cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â derbyn cofnodion o gyfarfodydd swyddogion ar draws y Gogledd, nodwyd gan fod y cyfarfodydd yn cymryd lle yn wythnosol a 90% o'r drafodaeth yn ymwneud â rheoliadau covid 19, nad oedd cofnodion ysgrifenedig o'r cyfarfodydd hyn ar gael.

PENDERFYNWYD

- 1. Cymeradwyo cychwyn yr ymgynghoriad statudol ar y Datganiad o Bolisi Trwyddedu drafft.**
- 2. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori fydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn yn amlinellu'r ymatebion a dderbyniwyd. Bydd unrhyw bryderon a godir am y polisi drafft newydd yn cael eu hystyried a bydd newidiadau yn cael eu gwneud i'r polisi yn ôl yr angen.**
- 3. Ar ôl cymeradwyaeth gan y pwyllgor hwn yn dilyn yr ymgynghoriad, fe fydd y polisi newydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn iw ystyried; er penderfyniad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10:25am